# Cynnal a chadw seleri a barilanau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sut rydych chi'n cynnal a chadw cyflwr eich seler a'ch barilanau. Mae'n ymwneud â chynnal a chadw'r holl gyfarpar a sut rydych chi'n cynnal safon y diodydd i'ch cwsmeriaid.

Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau technegol y mae eu hangen i gynnal a chadw seleri a barilanau; fodd bynnag, dylid ei hasesu yng nghyd-destun ehangach arferion gweithio diogel a hylan. Argymhellir cyfeirio at yr NOS canlynol, a ddewisir am eu bod yn briodol i'r rôl ac i'r sefydliad, ar y cyd â'r sgiliau a'r wybodaeth dechnegol ar gyfer y safon:
- Cynnal diogelwch bwyd sylfaenol mewn arlwyo
- Cynnal diogelwch bwyd mewn amgylchedd lletygarwch
- Rhoi cyngor sylfaenol ar alergenau i gwsmeriaid
- Lleihau risg alergenau i gwsmeriaid

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r safon hon, byddwch chi'n gallu dangos eich dealltwriaeth o'r canlynol, a'ch gallu i:
- Gynnal a chadw seleri a barilanau

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Cadw arwynebau'r seler yn rhydd rhag llwch, sbwriel, gollyngiadau a llwydni
2. Gwirio bod draeniau, gylïau a swmpau yn lân ac yn llifo'n ddirwystr
3. Cadw holl gyfarpar y seler yn lân ac yn gweithio'n dda
4. Defnyddio'r cyfarpar glanhau, y cyfarpar diogelu personol a'r cemegion cywir a sicrhau eu bod yn cael eu storio'n gywir
5. Cynnal tymheredd ac amodau amgylcheddol eich seler yn unol â gweithdrefnau eich gweithle
6. Diogelu'r seler rhag mynediad anawdurdodedig bob amser
7. Storio a gosod barilanau llawn a'r cyflenwad nwy yn ddiogel a sicrhau eu bod yn gyfleus i'w defnyddio
8. Dilyn gweithdrefnau diogel a chywir wrth ddatgysylltu barilanau neu'r cyflenwad nwy
9. Gwirio mai'r farilan neu'r cyflenwad nwy newydd yw'r cynnyrch cywir a'u bod o fewn eu dyddiad cyn cysylltu
10. Dilyn gweithdrefnau diogel a hylan wrth gysylltu'r farilan neu'r cyflenwad nwy newydd
11. Storio barilanau neu nwy wedi'u defnyddio yn ddiogel ac yn gyfleus i'w danfon
12. Delio â gollyngiadau yn y farilan neu'r cyflenwad nwy ar unwaith, yn effeithlon, gan wneud yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'r person priodol am unrhyw ddigwyddiadau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Arferion gweithio diogel a hylan wrth gynnal a chadw seleri
2. Pam mae'n bwysig cadw'r seler yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig
3. Pam mae rheoli tymheredd ac amgylchedd y seler yn bwysig a beth yw'r amodau delfrydol
4. Y mathau o broblemau a all ddigwydd wrth gynnal a chadw'r seler a sut i ddelio â'r rhain
5. Arferion gweithio diogel a hylan wrth baratoi barilanau a nwy i'w defnyddio
6. Beth yw risgiau cam-drafod barilanau a nwy a sut i adnabod arwyddion o ollyngiadau
7. Pam dylid rhoi gwybod am unrhyw arwyddion o ddifrod i farilanau neu nwy, ac i bwy
8. Beth yw'r ystyriaethau diogelwch wrth ddelio â nwy cymysg a beth yw gweithdrefn eich gweithle ar gyfer delio ag argyfwng
9. Sut i wybod p'un a yw cyflwr stoc wedi dirywio neu a yw stoc heibio'i ddyddiad, a pham mae hyn yn bwysig
10. Y mathau o broblemau a all ddigwydd wrth baratoi barilanau a nwy i'w defnyddio a sut i ddelio â'r rhain

## Cwmpas/Ystod

**1 Amodau amgylcheddol**

1.1 tymheredd

1.2 goleuo

1.3 awyru

1.4 lleithder

**2 Cyfarpar**

2.1 rheseli / silffoedd / cewyll

2.2 unedau oergell / oeri

2.3 unedau cyflyru amgylcheddol

2.4 cyfarpar systemau glanhau

**3 Diodydd / Nwy**

3.1 cwrw / lager

3.2 seidr

3.3 cwrw dihopys

3.4 gwin

3.5 diodydd ysgafn

3.6 silindrau nwy

3.7 nwy swmp

Cynnal a chadw seleri a barilanau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL2FBS6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Aelod o'r tîm, Gweinydd/Gweinyddes, Staff bar |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch – Gwasanaeth Bwyd a Diod |
| **Geiriau Allweddol** | cynnal; seleri; barilanau |